

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

28 Mawrth 2018

Yn Bresennol: Mrs G Hayward (Cadeirydd)

Mr A Archer, Cyngorydd P Baker, Cyngorydd Mrs D Clements, Cyngorydd P Harries, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cyngorydd M James, Cyngorydd P Kidney, Cyngorydd PJ Morgan, Cyngorydd R Owens, Mr AE Sangster, Cyngorydd A Wilcox, Cyngorydd M Williams a'r Cyngorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.55am)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorydd K Doolin, Cyngorydd M Evans a Dr RM Plummer.

2. Datgan Buddiannau

Dywedodd Mr A Archer bod ganddo fuddiant personol ond nid rhagfarnus yn adroddiad 07/18 – Datganiad Llywodraethu Blyneddol 2017/18.

Dywedodd y Cyngorydd P Harries bod ganddo fuddiant rhagfarnus yn adroddiad 10/18 – Diweddariad ar waredu adeilad yr Awdurdod ar y Stryd Hir Trefdraeth, ond ychwanegodd bod y Pwyllgor Safonau wedi ei awdurdodi i siarad a phleidleisio ar y mater.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7^{fed} o Chwefror 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7^{fed} o Chwefror 2018.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

(a) Penodi Swyddog Monitro (Cofnod 4(b))

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Pwyllgor Personél yn cyfarfod yn hwyrach y diwrnod hwnnw i ystyried y mater ymhellach.

NODWYD.

(b) Codi Arian (Cofnod 12)

Dywedodd y Prif Weithredwr bod pleidlais wedi'i chynnal yn y cyfarfod diweddar o Barciau Cenedlaethol y DU a bod mwyafrif bychan o blaid cefnogi creu Ymddiriedolaeth Elusennol.

NODWYD.



5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Aeth y Cadeirydd rhagddi i ddweud ei bod wedi mynychu amrywiol ddigwyddiadau a chyfarfodydd ar ran yr Awdurdod yn yr wythnosau diwethaf, gan gynnwys cyfarfodydd o Weithredwyr Parciau Cenedlaethol y DU a Pharciau Cenedlaethol Cymru, cyfarfodydd â chynrychiolwyr gwleidyddol lleol, a lansio'r arddangosfa wych newydd yn Oriel y Parc, a drefnwyd mewn partneriaeth ag Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru ac Oriel Tate, ac anogodd pob Aelod i ymweld â'r arddangosfa.

6. Adroddiadau cyfarfodydd gwahanol Bwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried neu er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2018;
- (ii) Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2018;

Dywedwyd bod y broses o recriwtio Swyddog Cronfa Datblygu Cynaliadwy newydd wedi cychwyn erbyn hyn.

- (iii) Y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2018;
- (iv) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2018.

NODWYD.

7. Y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo (Newydd), Arfarniad Drafft o Gynaliadwyedd, Asesiad Drafft o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad Drafft o'r Rheoliadau Cynefinoedd, Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cychwynnol

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r amcanion a'r polisiâu defnydd tir sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth honno. Roedd y gwaith o adolygu'r CDLI wedi cychwyn yn 2015, ac roedd yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau yn ceisio cymeradwyaeth i'r dogfennau a enwir uchod at ddibenion ymgynghori, yr oedd crynodebau ohonynt ynghlwm wrth yr adroddiad, ac roedd y dogfennau llawn wedi'u hystyried gan yr Aelodau mewn gweithdai a gynhaliwyd yn ystod y misoedd blaenorol.

Eglurodd yr adroddiad y byddai'r ymgynghori ar y CDLI Adneuo (Newydd) yn digwydd yn ystod misoedd Ebrill a Mai 2018. Byddai gweithdai pellach yn cael eu trefnu i'r Aelodau i adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r ymarferiad ymgynghori.

Hefyd roedd yr adroddiad yn ceisio pwerau dirprwyedig i Bennaeth Cyfarwyddyd y Parc drafod meysydd o gytundeb ac anghytundeb â'r rhai sy'n cyflwyno sylwadau ar gynigion yn y Cynllun Adneuo. Fodd bynnag



rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau y gofynnir iddynt gymeradwyo unrhyw 'Ddatganiad o Dir Cyffredin' ar gyfer eu cyflwyno'n ffurfiol lle mae'r cynigion yn wahanol i'r rhai a nodir yn y CDLI Adneuo. Hefyd gofynnodd am awdurdod dirprwyedig i gywiro rhai problemau fformatio a ddigwyddodd pan oedd y ddogfen wedi'i throsi i fformat PDF.

Roedd yr Aelodau yn cymeradwyo'r swyddogion ar y gwaith enfawr a wnaed i gynhyrchu'r dogfennau, ac roeddent yn falch o'r ymgysylltu â'r cymunedau lleol oedd wedi digwydd hyd yn hyn fel yr amlinellir yn yr Adroddiad ar yr Ymgynghori Cychwynnol. Ychwanegodd y swyddog, gan fod pobl a sefydliadau wedi cael eu hannog i gyflwyno eu sylwadau ar y camau cynharach o baratoi'r cynllun, nad oedd yn fwriad i gynnal 'sioe deithiol' o gyfarfodydd yn ystod y cyfnod nesaf o ymgynghori. Fodd bynnag, roedd swyddogion yn hapus i gwrdd ag unrhyw un neu i fynychu cyfarfodydd gyda Chynghorau Cymuned ar gais.

Diolchwyd i'r swyddogion am y newidiadau a wnaed i Bolisi 14 a'r Iaith Gymraeg o ganlyniad i sylwadau a wnaed yn y Gweithdai. Fodd bynnag gwnaed cais i ychwanegu brawddeg at yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i amlygu'r ffaith y byddai'r Gymraeg yn cael ei hystyried bob amser mewn penderfyniadau.

Gofynnodd Aelod arall am statws y Cynllun unwaith y byddai'n cael ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghori. Atebodd y Cyfreithiwr bod gan y Cynllun rywfaint o statws fel ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio, ond y gallai'r Arolygwr ddal i ddiwygio rhannau hyd yn oed mai ychydig o sylwadau a wnaed arnynt yn ystod yr ymgynghoriad.

PENDERFYNWYD:

- a) cymeradwyo'r Adroddiad ar yr Ymgynghori Cychwynnol ar y Strategaeth a Ffeirir yn y Cynllun Datblygu Lleol;
- b) cymeradwyo Cynllun Datblygu Lleol (Newydd) Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i'w osod ar Adnau ar gyfer derbyn sylwadau;
- c) cymeradwyo'r Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Adneuo;
- d) cymeradwyo'r Asesiad o Effaith y Cynllun Adneuo ar Gydraddoldeb;
- e) cymeradwyo'r Asesiad o'r Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Cynllun Adneuo;
- f) rhoi pwerau dirprwyedig i Bennaeth Cyfarwyddyd y Parc i gywiro unrhyw wallau fformatio neu deipograffyddol yn y Cynllun Adneuo ac i drafod meysydd o gytundeb ac anghytundeb â'r rhai sy'n cyflwyno sylwadau ar gynigion yn y Cynllun Adneuo.
- g) awdurdodi Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc i gyflwyno'r amserlen ddangosol ar gyfer y camau sy'n weddill o'r Cynllun Datblygu Lleol fel y'u nodir yn y Cytundeb Cyflawni i Lywodraeth Cymru.



8. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18

Dywedwyd bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyfrwng i ddangos llwyddiant yr Awdurdod o ran cyflawni gwelliant parhaus mewn perfformiad, yn clustnodi systemau a phrosesau rheoli, ac yn tynnu sylw at faterion llywodraethu o bwys y dylid mynd i'r afael â hwy. Roedd croeso i'r Aelodau wneud sylwadau ar y datganiad oedd gerbron, ac roedd y Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol eisoes wedi adolygu drafft o'r datganiad yn ei gyfarfod fis Chwefror 2018.

Awgrymodd un Aelod y dylid cyfeirio at y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy yn y rhestr o Bwyllgorau sy'n rhan o'r fframwaith Llywodraethu, gan fod y Pwyllgor yn dyfarnu grantiau i ymgeiswyr i'r gronfa. Hefyd nodwyd ychydig o fân wallau fformatio a theipograffyddol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18.

9. Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2018/19

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol o dan y Mesur Llywodraeth Leol gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n ymarferol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Roedd y ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus gyhoeddi cynllun sy'n dangos sut fyddent yn cymryd camau tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a sut yr oedd wedi cymhwyso'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn ei waith. Er mwyn lleihau'r angen am ddyblygu, bwriedir i'r cynllun corfforaethol hwn fodloni gofynion y ddau ddarn o ddeddfwriaeth drwy ddatblygu amcanion llesiant yr Awdurdod y gellid hefyd eu hystyried yn amcanion gwella.

Roedd y Cynllun Corfforaethol drafft wedi'i gyflwyno gerbron yr Aelodau yng nghyfarfod blaenorol yr Awdurdod am sylwadau, a chyhoeddwyd y cynllun ar gyfer ymgynghori yn ystod mis Chwefror. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau allanol, ond roedd newidiadau wedi'u gwneud yn dilyn sylwadau ac adborth gan y staff a'r Aelodau. Hefyd roedd y drafft wedi'i ddiwygio i ystyried newidiadau i Gynllun Llesiant Sir Benfro.

Nododd y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth bod tri diagram yn y Cynllun heb eu hargraffu'n glir, ond nid oedd y rhain yn wahanol i'r diagramau yn y fersiwn blaenorol o'r Cynllun.

Gwnaeth yr Aelodau nifer o awgrymiadau, gan gynnwys cyfeirio at gyfraniad y Gronfa Datblygu Cynaliadwy at Amcan Llesiant 1; gan gynnwys canran y nifer o ddiwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch yn ogystal â'r union ffigur fesul gweithiwr i allu cymharu; a chynnwys targed o dan Amcan 5 ynghylch ymgysylltu â chymunedau yn dilyn cyflwyno ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau i



ymwelwyr. Dywedodd y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth y gellid ymgorffori'r awgrymiadau hyn yn fframwaith perfformiad Ffynnon ar gyfer y cynllun.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Corfforaethol 2018/19.

10. Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

Dywedwyd ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynhyrchu Cynllun Llesiant oedd yn nodi sut y byddai'n gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Benfro. Roedd y Cynllun yn seiliedig ar Asesiad Llesiant Sir Benfro ac roedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio cymeradwyaeth i'r Cynllun drwy eu strwythurau llywodraethu er mwyn i'r Cynllun fod yn ei le erbyn mis Mai 2018 gan fod rhaid i'r Cynllun gael ei gyhoeddi erbyn hynny.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Llesiant ar gyfer Sir Benfro.

11. Diweddariad ar Waredu Eiddo'r Awdurdod yn Stryd Hir Trefdraeth

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod yn eu cyfarfod ar y 29ain o Dachwedd 2017 wedi penderfynu gwaredu eiddo'r Awdurdod yn Stryd Hir Trefdraeth drwy ei roi ar werth ar y farchnad agored gyda meddiant gwag llawn ar yr amod y dylai'r Awdurdod yn gyntaf wahodd a rhoi ystyriaeth i unrhyw gynigion hyfyw o Drosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT) a ddaw i law.

Dywedwyd, yn dilyn ymarfer marchnata yn gwahodd mynegiadau o ddiddordeb o fewn egwyddor CAT, bod dau gais wedi'u cyflwyno ar neu cyn y dyddiad cau. Cyflwynwyd un gan unigolyn preifat sy'n chwilio am adeilad busnes ar gyfer menter fasnachol newydd, a'r llall gan Gyngor Tref Trefdraeth yn gofyn am feddiant yr adeilad i adleoli llyfrgell y dref, darparu gwasanaethau gwybodaeth i ymwelwyr, a chyfuno gweithgareddau'r Cyngor Tref ar yr un safle hwn.

Argymhellwyd bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi i gynnal trafodaethau manwl gyda Chyngor Tref Trefdraeth a neb arall i geisio gwireddu cytundeb CAT o drosglwyddo ei eiddo yn Stryd Hir Trefdraeth. Awgrymwyd bod trafodaethau'n mynd rhagddynt ar sail prydles, ac y dylai diweddariad ar y trafodaethau hynny fod yn destun papur arall i'r Aelodau ei ystyried.

Roedd yr Aelodau yn hapus i gefnogi trafodaethau gyda Chyngor Tref Trefdraeth ar sail eu Mynegiant o Ddiddordeb, ond gofynnodd rhai Aelodau a oedd unrhyw ffordd o wneud defnydd o'r adeilad ar Stryd Hir yn ystod y tymor sydd i ddod, yn hytrach na bod ar adeilad yn wag.



Dywedodd y swyddogion na fyddai hyn yn bosibl am amrywiol resymau ac yn ofni y byddai cynnig gwael yn tanseilio'r cynllun tymor hwy ac yn gwanhau sefyllfa'r Cyngor Tref. Dywedodd Aelod arall y gallai'r trafodaethau symud yn gyflymach nag y rhagwelwyd gan obeithio y byddai'r Cyngor Tref yn gallu darparu mwy o wybodaeth ynglŷn â'u cynlluniau ar gyfer yr adeilad.

Fodd bynnag, roedd rhai Aelodau yn dal i bryderu am y cymorth parhaus i ymwelwyr fyddai'n cael ei roi i Drefdraeth a'r ardal gyfagos yn dilyn cau'r ganolfan, ac o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau bod gwybodaeth am y gwasanaethau eraill a ddarperir ar gael i'r Gymuned. Gan nodi sylwadau'r Aelodau ynglŷn â chyfathrebu, atebodd y swyddogion fod y broses o weithredu'r trosglwyddo wedi cychwyn. Fodd bynnag roedd tipyn o amser cyn dechrau'r tymor go iawn ac roedd trefniadau yn dal i gael eu rhoi ar waith.

PENDERFYNWYD awdurdodi'r swyddogion i fynd ati i gynnal trafodaethau manwl gyda Chyngor Tref Trefdraeth a neb arall i geisio Trosglwyddo Ased Cymunedol ei eiddo yn Stryd Hir Trefdraeth. Byddai trafodaethau yn mynd rhagddynt ar sail prydles, a byddai diweddariad ar y trafodaethau hynny yn destun papur pellach i'w ystyried gan Aelodau o fewn y 6 mis nesaf.

12. Dirprwyo'r Awdurdod i Swyddogion wneud Gorchmynion Creu Llwybrau Cyhoeddus a Gorchmynion Diddymu Llwybrau Cyhoeddus

Dywedwyd bod Adran 26 ac Adran 118 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn rhoi'r pwerau i wneud Gorchmynion Creu Llwybrau Cyhoeddus a Gorchmynion Diddymu Llwybrau Cyhoeddus. Rhoddwyd y pwerau penodol hyn yn ddiweddarach i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o'r pwerau hyn gan awdurdodau lleol gan mai pwerau eraill megis Gorchmynion Dargyfeirio Llwybrau Cyhoeddus a Chytundebau Creu Llwybrau Cyhoeddus oedd y prif weithdrefnau a ddefnyddiwyd i greu hawliau tramwy cyhoeddus newydd neu i ddargyfeirio llwybrau presennol. Yn gyffredinol, gwnaed Cytundebau Creu a Gorchmynion Gwyo gyda chydweithrediad y rhai oedd â buddiant yn y mater, yn bennaf y perchnogion a deiliaid y tir yr effeithir arno. O ganlyniad, roedd y pwerau i wneud Cytundebau Creu a Gorchmynion Gwyo eisoes wedi cael eu dirprwyo i swyddogion. Ers 1996, roedd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi gwneud 24 o Gytundebau Creu a 68 o Orchmynion Dargyfeirio.

Defnyddiwyd Gorchmynion Creu pan na ellid gwybod pwy oedd y perchennog tir neu pan na ellid cyrraedd cytundeb gyda'r tiffeddiannwr o ran creu llwybr troed. Roedd rhaid i'r awdurdod lleol fodloni profion cyfreithiol llym ar yr angen am hawl tramwy cyhoeddus a'i fuddiant i'r cyhoedd er mwyn i weithdrefn hir fod yn llwyddiannus. Byddai dirprwyo



awdurdod i swyddogion yn cyflymu'r weithdrefn o wneud Gorchmynion Creu Llwybrau Cyhoeddus o dan Adran 26 o Ddeddf Priffyrdd 1980; Gorchmynion Diddymu Llwybrau Cyhoeddus o dan Adran 118 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac yn caniatáu iddynt ymarfer pwerau mynediad i dir mewn cysylltiad â gwneud Gorchmynion o dan Adran 293 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Roedd yr Aelodau yn gefnogol i'r cais ond gofynnwyd i fanylion y Gorchmynion a wnaed gael eu dwyn gerbron y Pwyllgor Adolygu Gweithredol, ac roedd y swyddogion yn hapus i wneud hynny.

PENDERFYNWYD bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr i awdurdodi aelodau unigol o staff wneud Gorchmynion Creu Llwybr Cyhoeddus o dan Adran 26 o Ddeddf Priffyrdd 1980; Gorchmynion Diddymu Llwybrau Cyhoeddus o dan Adran 118 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac ymarfer pwerau mynediad i dir o dan Adran 293 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

13. Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd: Tirweddau Dynodedig

Dywedyd bod Hannah Blythyn, AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, wedi cyflwyno datganiad llafar ar Dirweddau Dynodedig yn y Senedd ar y 13eg o Fawrth 2018. Roedd copi o'r datganiad hwn ynghlwm wrth yr adroddiad. Gofynnwyd am adborth yr Aelodau, fel y gallai hyn lywio'r drafodaeth gan Gadeiryddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru pan fyddant yn cyfarfod â'r Gweinidog ar 18 Ebrill.

Roedd y Datganiad yn nodi bod Tirweddau Dynodedig yn y broses o gael eu hadolygu ers yr ymgynghori ar y datganiad polisi drafft yn 2013. Gobaith y swyddogion oedd y byddai'r datganiad polisi yr oedd y Gweinidog yn bwriadu ei gyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf, gan ddod â'r broses adolygu i ben, hefyd yn destun ymgynghori. Hefyd barnwyd mai canlyniad cadarnhaol gwaith Tirweddau'r Dyfodol Cymru oedd y cysylltiadau gwaith agosach a ddatblygwyd gydag Ardaloedd o Harddwch Eithriadol yr oedd y Gweinidog yn gobeithio eu datblygu ymhellach.

Roedd yr Aelodau yn croesawu cyfeiriad cyffredinol y datganiad, yn enwedig y byddai dibenion presennol y Parciau Cenedlaethol yn cael eu cadw ac nid eu gwanhau. Serch hynny, gwnaed y pwynt y byddai'r gostyngiad mewn cyllid i'r Awdurdodau flwyddyn ar ben blwyddyn yn sicr o arwain at wanhau eu sefyllfa. Hefyd roeddent o'r farn bod methu ag ymgorffori'r Ddyletswydd economaidd fel trydydd diben yn gyfle a gollwyd o ystyried y gefnogaeth a fynegwyd i'r cynnig hwn gan y gymuned fusnes drwy amrywiol fforymau, gan gynnwys yn y Cydadolygiad Craffu gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri ar effaith



polisiau a gwaith yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar eu gweithgarwch economaidd.

Pwyntiau eraill y gellid eu codi gyda'r Gweinidog oedd y modd yr oedd yn rhagweld y byddai'r baich gweinyddol ar Awdurdodau yn cael ei leihau, a hefyd beth a olygir gan y modd y byddai gadael yr Undeb Ewropeaidd yn newid y ffordd y byddai 'canfyddiadau adolygiadau blaenorol' yn cael eu dehongli.

NODWYD.

14. Caffi Castell Caeriw

Atgoffwyd yr Aelodau bod cynllun i adfywio'r Ardd Furiog ac adeiladu caffi yng Nghastell Caeriw wedi'i gymeradwyo fis Medi 2017. Roedd y cynllun yn cynnwys caffi, tirweddu, plannu, lle chwarae antur, strwythur dan do, siop a mynedfa newydd i ysgolion, datblygu 'Gardd Nos' ar gyfer Darganfod Awyr Dywyll, a deunydd dehongli newydd.

Cymeradwywyd ariannu'r prosiect cyfan o rhyw £231,125, fodd bynnag dyfarnwyd grant TAIS Croeso Cymru o £123,212 ar gyfer Prosiect yr Ardd Furiog oedd yn golygu bod cyfraniad yr Awdurdod i'r prosiect wedi'i ostwng i £113,565 oedd yn cynnwys £84,175 ar gyfer adeiladu'r caffi.

Ers hynny, roedd y brîff gwreiddiol ar gyfer y prosiect wedi cael ei adolygu a'i ystyried yn rhy geidwadol, heb gynnwys prawfesur cynnydd yn y busnes yng Nghastell Caeriw yn y dyfodol. Barnwyd felly mai dyma'r amser i uwchraddio manyleb wreiddiol y caffi, gan ddarparu lle i fwy o ymwelwyr a galluogi bod ar agor am fwy o fisoedd yn y flwyddyn.

Y cynnig gwreiddiol oedd ar gyfer caffi gweddol fach gyda seddi y tu allan fyddai'n gaffi tymhorol yn unig, yn gaeedig ar dair ochr. Bwriad y gwelliannau a'r newidiadau i'r dyluniad oedd gwneud yr arwynebedd llawr cymharol fach mor effeithlon â phosibl, gydag amgylchedd gwaith da i'r staff, yn ogystal â'r gallu i ddarparu ar gyfer y farchnad leol y tu allan i'r cyfnodau prysur traddodiadol. Ymhlith y gwelliannau mwyaf i'r dyluniad oedd ychwanegu ffenestri i greu gofod mewnol cynnes a sych, ac uno'r gegin fechan a'r ystafell storio yn un gegin mwy o faint. Nodwyd bod caniatâd cynllunio ar gyfer pob un o'r gwelliannau wedi'i roi. Cyflwynwyd manylion gerbron am y newidiadau, ynghyd â chostau.

Y bwriad oedd y byddai'r gwaith adeiladu yn digwydd yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf 2018, yn barod i'w agor cyn gwyliau haf yr ysgolion. Gyda hyn mewn golwg, ceisiwyd tendrau yn seiliedig ar y cynigion diwygiedig; roedd pob tendr a dderbyniwyd yn uwch na'r costau a amcangyfrifwyd yn yr adroddiad, ond roeddent o fewn 10% o'r gyllideb gyffredinol. Y cyllid ychwanegol a geisiwyd felly oedd £49,600 a hyd at 10% ychwanegol.



Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynghylch newid y cynlluniau, costau uwch a'r dyddiad agor yn hwyrach na'r disgwyl. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn croesawu'r addasiadau, gan gredu bod datblygu'r caffi yn gyfle gwych ac yn ychwanegu at yr hyn a gynigir ar hyn o bryd i ymwelwyr. Cadarnhawyd y gellid talu am yr arian ychwanegol o gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf ac na fyddai'n effeithio ar y gyllideb y cytunwyd arni am y flwyddyn sydd i ddod.

Fodd bynnag, roedd rhai Aelodau yn cwestiynu a oedd rhedeg caffi yn dod o fewn dibenion y Parc Cenedlaethol, gan gredu na ddylid defnyddio arian cyhoeddus i gefnogi busnes oedd yn cystadlu â busnesau lleol eraill. Serch hynny, roeddent yn cydnabod bod cryn waith eisoes wedi'i wneud ar y prosiect penodol hwn ac y dylai barhau.

Holodd un Aelod a fyddai'r toiled a gynigiwyd fel rhan o'r datblygiad diwygiedig yn hygyrch i ymwelwyr anabl, ac roedd yn siomedig o gael ar ddeall nad oedd hyn yn wir oherwydd cyfyngiadau gofod. Dywedodd y swyddogion bod toiled i'r anabl ar gael yn ymyl y ganolfan ymwelwyr. Fodd bynnag, er mwyn trafod y mater ymhellach, cytunodd y swyddogion i gwrdd â'r Aelod ar y safle i lywio'r trafodaethau o hyn ymlaen.

PENDERFYNWYD bod cyllid ychwanegol o £49,600 a hyd at 10% o'r gyllideb gyffredinol yn cael ei gymeradwyo ar gyfer y caffi yng Nghastell Caeriw.

15. Partneriaeth Moroedd Glân Cymru

Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru yn 2017 wedi dod ag ystod amrywiol o randdeiliaid ynghyd i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Sbwriel Môr cyntaf i Gymru, ac mae hwn yn faes penodol o ddatblygu gwaith. Roedd sefydliadau a rhanddeiliaid oedd yn rhan o'r Cynllun wedi dod ynghyd yn 2018 i ffurfio 'Partneriaeth Moroedd Glân Cymru' gyda'r nod o annog pob sector yng Nghymru i gymryd camau o weithredu ar faterion sbwriel môr. Byddai'r enw a'r hunaniaeth yn gyson ag ymgyrch fyd-eang Moroedd Glân y Cenhedloedd Unedig.

I ategu'r gwaith, cynigiwyd bod yr Awdurdod yn arwyddo'r addewid Moroedd Glân gan ganolbwyntio ar ddewis cynnyrch wedi'i becynnu heb blastig neu llai o blastig ac osgoi cynnyrch â microbelenni. Yn ogystal, byddai'r Awdurdod yn ymuno â'r Partneriaeth Moroedd Glân ac yn ceisio rhoi cymorth, lle bo hynny'n briodol ac yn bosibl, i grwpiau sy'n ceisio lleihau effaith negyddol plastig ar ein glannau.

Roedd yr Aelodau yn croesawu'r fenter ac yn cytuno, fel Parc Cenedlaethol arfordirol, ei bod yn hollbwysig bod yr Awdurdod yn cymryd y camau hyn.



PENDERFYNWYD bod yr Awdurdod yn arwyddo'r Addewid Moroedd Glân ac yn ymuno â'r Bartneriaeth Moroedd Glân.

16. Calendr Cyfarfodydd 2018/19

Atgoffwyd yr Aelodau bod y calendr cyfredol o gyfarfodydd yn dod i ben fis Mehefin 2018, yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol. Felly, cyflwynwyd y calendr am y flwyddyn sydd i ddod i'w gymeradwyo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r calendr o gyfarfodydd ar gyfer 2018/19.

17. Digwyddiadau Corfforaethol

Roedd yr adroddiad yn nodi'r digwyddiadau hynny yr oedd Aelodau'r Awdurdod wedi cael gwahoddiad i'w mynychu eleni, a gofynnwyd i'r Aelodau gytuno ar fynychu'r digwyddiadau hyn. Gan nad oedd nifer o Aelodau'n bresennol y diwrnod hwnnw, byddai manylion y digwyddiadau yn cael eu dosbarthu i bob Aelod i roi cyfle i bawb sydd â diddordeb ymateb.

PENDERFYNWYD rhoi caniatâd i'r Aelodau fynychu'r digwyddiadau fel a ganlyn:

- a) Un Aelod i fynychu Cynhadledd Cynllunio Cymru ddydd Iau 7 Mehefin 2018.
- b) Un neu ddau Aelod i fynychu Cynhadledd Europarc, 18-21 Medi 2018 ym Mharc Cenedlaethol y Cairngorms, Yr Alban.
- c) Pob Aelod i fynychu Seminar Blynyddol Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru a gynhelir ar y 6^{ed} a'r 7^{fed} o Dachwedd 2018 yng Ngwesty St Brides, Saundersfoot.
- d) Aelodau Newydd yr Awdurdod i fynychu Cyrsiau Sefydlu Cenedlaethol i'r Aelodau a gynhelir yn y New Forest rhwng 11eg - 13eg Medi 2018 ac yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog rhwng 12 a 14 Mawrth 2019.
- e) Un neu ddau Aelod i fynychu Cynhadledd Flynyddol y WLGA ar 28 Mehefin yn Llandudno.

18. Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau 2017/18

Dywedwyd bod Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi'i gyhoeddi fis Chwefror 2018. Roedd darnau perthnasol o'r adroddiad ynghlwm wrth adroddiad y swyddog, a rhoddwyd crynodeb o'r prif newidiadau i gydnabyddiaeth ariannol yr Aelodau am y flwyddyn ariannol 2018/19, sef: cynnydd yn y Cyflog Sylfaenol i 'Aelodau cyffredin' o £3,625 i £3,675 y flwyddyn; ni fu cynnydd



yn y Cyflog Uwch sy'n daladwy i Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a (hyd at ddau) Gadeirydd Pwyllgor arall, ond byddai'r swyddi hyn yn derbyn y codiad yn y cyflog sylfaenol a delir i 'Aelodau cyffredin'. Daw'r fframwaith cyflog newydd i rym ar 01 Ebrill 2018.

Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r ffioedd sy'n daladwy i Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau, nac i lefel y cyfraddau teithio a chynhaliaeth. Nid oedd newid ychwaith i lefel ad-dalu costau gofal i'r Aelodau.

Roedd gan yr Awdurdod yr hawl i dalu Cyflog Uwch i hyd at bedair swydd (Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â dau Gadeirydd Pwyllgor). Ar hyn o bryd telir cyflog uwch i dri ohonynt: swyddi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Telir yr un lefel o gyflog uwch ar hyn o bryd i'r swyddi Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor (Lefel 2), er bod y Panel wedi dod i'r casgliad y gallai'r Awdurdod benderfynu ar ba lefel o ddwy lefel y gellid talu'r swyddi hyn.

Gofynnwyd i'r Aelodau felly benderfynu pa swyddi sy'n gymwys i gael Cyflog Uwch yn 2018/19; pa lefel o gydnabyddiaeth ddylai fod yn daladwy i swyddi Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd(ion) Pwyllgor; a hefyd nifer uchaf y diwrnodau mewn unrhyw flwyddyn y gellid eu talu i Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

Roedd yr Aelodau yn hapus â'r swyddi oedd yn gymwys ar hyn o bryd i dderbyn Cyflog Uwch ac â lefel y cyflog a delir i'r deiliaid swyddi hynny.

PENDERFYNWYD:

- a) Nodi Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2018/19;
- b) Bod y swyddi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, yn derbyn Cyflog Uwch;
- c) Bod Cyflog Uwch lefel 2 yn daladwy i Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu; a
- d) Bod nifer uchaf y diwrnodau y gellir talu Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau mewn unrhyw flwyddyn yn parhau ar 4 diwrnod y flwyddyn.

